newsletter

WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

# Cylchlythyr WHIASU

*Rhifyn Gaeaf 2018/19*

## CYNNWYS


**01 Newyddion**

i. WHIASU yn Croesawu Aelodau Newydd o'r Tîm

ii. Diweddariad ar Ganolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer 'Buddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant'

**02 Rhoi HIA ar Waith**

iii. Effeithiau Lleihau, Ailddefnyddio ac Ailgylchu Gwastraff ar Iechyd y Cyhoedd mewn Cyrff Iechyd y Cyhoedd

**03 Cydweithredu a Phartneriaeth**

iv. Cydgordio Iechyd y Cyhoedd a Chynllunio Defnydd o Dir

v. Cydweithredu Parhaus gyda Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)

vi. Cydweithredu Parhaus gyda'r Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref ar '5 mlynedd ar gynllunio iechyd

vii. Canolfan Gydweithredu WHO ar gyfer Amgylcheddau Trefol Iach ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr

**04 Cyhoeddiadau a Chyflwyniadau**

viii. Cyflwyniad ar Economïau Cylchol yng Nghyfarfod Arbenigwyr Technegol Rhanbarthol Ewropeaidd WHO

ix. Cynhadledd Cymdeithas Iechyd y Cyhoedd Ewrop (EUPHA), Ljubiana, Tachwedd 28- 1 Rhagfyr

x. Diwrnod DPP y Sefydliad Tirwedd

**05 Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

xi. Cyfleoedd Hyfforddi

xii. Adnoddau

xiii. Dolenni Defnyddiol

**06 Cysylltwch â Ni**

# WHIASU
## *cylchlythyr*

**Croeso i ryfyn y gaeaf 2018/19 o gylchlythyr Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU).**



Gobeithio byddwch yn mwynhau darllen ein herthyglau ac os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

# Newyddion

**<u>WHIASU yn Croesawu Pedwar Aelod Newydd i'r Tîm</u>**

Ers cyhoeddi rhifyn diwethaf y cylchlythyr yn gynharach eleni, mae WHIASU wedi bod yn ddigon ffodus i groesawu pedwar aelod newydd i'r tîm. Mae Nerys Edmonds wedi dychwelyd i'r tîm fel Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd ar ôl gwneud swydd Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd yn yr Uned rhwng 2014-15. Mae Nerys yn arwain HIA ar oblygiadau Brexit yng Nghymru gyda Liz Green, a Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth a Strategaeth Hyfforddiant ar gyfer HIA; bydd hi hefyd yn cynorthwyo'r gwaith o weithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 trwy gyflwyno sesiynau hyfforddiant ac eiriolaeth.

Mae Ed Huckle wedi ymuno â'r tîm am 1 diwrnod yr wythnos ar secondiad tymor sefydog o Public Health England lle mae'n gweithio fel Prif Wyddonydd Iechyd Cyhoeddus yr Amgylchedd. Bydd Ed yn arwain y gwaith o ailgysylltu iechyd y cyhoedd a chynllunio datblygiad o dir yn ogystal â chefnogi swyddogaethau eraill WHIASU.

Mae Vicky Smith wedi ymuno â'r tîm fel Swyddog Cymorth Prosiect ar gontract tymor sefydlog am 1 diwrnod yr wythnos. Bydd Vicky'n cefnogi'r holl ffrydiau gwaith parhaus yn WHIASU tra'n cwblhau prentisiaeth Rheoli Prosiectau. Ymunodd Laura Morgan â WHIASU yn yr haf fel Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd – mae wedi bod yn gweithio ar HIA 'Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru. Mae croesawu pedwar aelod newydd i'r tîm wedi bod o fudd mawr i WHIASU ac mae wedi galluogi'r Uned i gryfhau ei gwaith presennol tra'n ehangu i feysydd newydd iechyd ar draws ystod ehangach o feysydd polisi.

## Diweddariad ar Ganolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer ‘Buddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant’

Dyluniwyd Cyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol (PRID) Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) fel Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd (WHO CC) ar gyfer ‘Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant’. Fel rhan o’r cynllun gwaith pedair blynedd cytûn, bydd WHIASU yn arwain Gweithgaredd 5 sydd yn canolbwyntio ar ddatblygu fframwaith ar gyfer HIA i Aelod-wladwriaethau Ewropeaidd WHO.

Ym mis Rhagfyr, cynhaliodd WHIASU gyfarfod y Grŵp Cynghori cyntaf ar gyfer Gweithgaredd 5 a diben y cyfarfod hwn oedd penderfynu ar weithgareddau a blaenoriaethau Blwyddyn 1. Er gwaethaf nifer o newidiadau sefydliadol a gynlluniwyd ar gyfer PRID, ni fydd y gwaith sy’n gysylltiedig â’r WHO CC yn cael ei effeithio. Ceir diweddariadau pellach ar Weithgaredd 5 yn y cylchlythyr nesaf yn 2019.

# Rhoi HIA ar Waith

## HIA ar Effeithiau Lleihau Gwastraff, Ailddefnyddio ac Ailgylchu gan Gyrff Cyhoeddus yng Nghymrus ar Iechyd y Cyhoedd

Mae WHIASU a Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd yng Nghyfarwyddiaeth Polisi, Ymchwil a Datblygu Cynaliadwy (PRID) Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) yn cynnal HIA cyfranogol cyflym i archwilio effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl ar iechyd y cyhoedd yn sgil rheoli gwastraff gan y 44 Corff Cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal â deall yr ymagweddau rheoli gwastraff presennol, nod y gwaith hwn yw nodi cyfleoedd i leihau faint o adnoddau (naturiol ac wedi eu gwneud gan fodau dynol) sy’n cael eu defnyddio gan Gyrff Cyhoeddus a lle nad yw’n bosibl lleihau, yna nodi ffyrdd o gynyddu faint o wastraff sy’n cael ei ailddefnyddio a’i ailgylchu. Bydd hyn yn cynorthwyo Cyrff Cyhoeddus i gyrraedd uchelgais Llywodraeth Cymru ‘Tuag at Ddyfodol Diwastraff’. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ar wefan WHIASU ym mis Chwefror 2019.



# Cydweithredu a Gweithio mewn Partneriaeth

## Cydgordio Iechyd y Cyhoedd a Chynllunio Defnydd o Dir

Ers ein cylchlythyr diwethaf, mae Gweithgor 'Cydgordio iechyd y cyhoedd a chynllunio wedi bod yn brysur gyda'i ymdrechion i wella integreiddio rhwng GIG Cymru (ar draws PHW a byrddau iechyd) ac awdurdodau lleol (adrannau cynllunio ac iechyd yr amgylchedd). Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Lleol Iechyd y Cyhoedd Caerdydd a'r Fro, WHIASU, a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru (cydweithrediad rhwng Diogelu Iechyd PHW a Chanolfan Ymbelydredd, Cemegau a Pheryglon Amgylcheddol Public Health England - Cymru). Mae rhanddeiliaid pwysig eraill, fel Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn helpu'r grŵp i hybu a sefydlu iechyd y cyhoedd fel ystyriaeth graidd wrth gynllunio polisi ac ymarfer.

Ymgorfforodd yr ymgynghoriad diweddar ar fersiwn drafft Polisi Cynllunio Cymru (PPW, Rhifyn 10) naws Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae gwneud y cysyniad o greu lle yn ganolog y potensial i gynyddu cyfraniad y polisi i nodau llesiant y ddeddf. Mae gweithio'n gydweithredol yn thema allweddol yn nrafft yr ymgynghoriad ac mae'n gyfle delfrydol i gymuned iechyd y cyhoedd groesawu'r newid hwn mewn gweledigaeth o ran cynllunio defnydd o dir.

Yn gynharach eleni, cynhaliwyd arolwg gyda thimau lleol iechyd y cyhoedd PHW, cydweithwyr byrddau iechyd, awdurdodau cynllunio lleol ac adrannau iechyd yr amgylchedd, i asesu a deall graddfa'r cydweithredu presennol ar draws asiantaethau, sectorau a disgyblaethau. Mae'r canlyniadau (tudalen nesaf) yn awgrymu bod datgysylltiad o ran ymgysylltu a cham-baru gwahaniaeth ym mlaenoriaethau iechyd y cyhoedd. Yn galonogol, ymddengys bod cefnogaeth sylweddol i ymgysylltu agosach ac awydd i archwilio ffyrdd ymarferol o wella ymgysylltu a gweithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Roedd y materion hyn yn destun gweithdy aml-asiantaeth a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 19 Tachwedd. Cyhoeddir crynodeb o'r gweithdy cyn diwedd y flwyddyn, a gellir gweld cyflwyniadau'r dydd ar wefan WHIASUCydnabyddir yn fwy nag erioed bod angen cynyddol i iechyd y cyhoedd ymgysylltu yng nghyfnodau cynllunio cynnar polisi cenedlaethol a lleol a chyfnodau ailymgeisio ar gyfer datblygiadau mawr. Trwy'r gwaith hwn, ein nod yw annog a hwyluso ymgysylltu yn fwy 'oddi wrth y cwsmer' er mwyn manteisio ar gyfleoedd i sefydlu iechyd y cyhoedd fel ystyriaeth graidd mewn polisi ac ymarfer cynllunio. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Ed Huckle yn Edwin.Huckle@phe.gov.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

WHIASU Wales Health Impact Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

# Harmonising Public Health and Land Use Planning

## All Wales Survey Results

**49** complete responses (**35%** response rate) **17** NHS Wales public health professionals and **32** local government planning and environmental health officers

## PUBLIC HEALTH

**53%** have little or no dialogue with local planning authorities

**Top 3 specialist areas of information provided in consultations:**

- Reducing obesity
- Increasing physical activity
- Active travel, access to open spaces and resilient communities

## PLANNING

**58%** have little or no engagement with local health boards

**53%** have little or no engagement with local public health teams

**Top 3 public health priorities regularly considered in consultation responses:**

- Air quality
- Environmental public health
- Active travel

**87%** of local government planning and environmental health officers want closer collaboration with public health on planning policy, consultations and applications

**LOW CONFIDENCE** in the revised Town and Country Planning (EIA) Regulations 2017 with regards to the wider definition of human health

**FAIRLY CONFIDENT** in awareness of forthcoming health impact assessment (HIA) regulations for public bodies under the Public Health (Wales) Act 2017

Over three quarters of respondents wanted a training workshop to explore opportunities for greater ways of working between public health professionals and local authority planning teams



Contact Edwin.Huckle@phe.gov.uk for further information

Public Health Wales, 2018

## Cydweithredu Parhaus gyda Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ar Hyfforddiant HIA

Mae WHIASU yn parhau i gyflwyno cwrs hyfforddiant HIA pen desg cyflym dros 2 ddiwrnod mewn cydweithrediad â Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH). Yn ystod 2018, mae WHIASU wedi cyflwyno dau gwrs cymhwysedd cyflym i 22 o ymarferwyr o ystod o sectorau ac arbenigeddau ar draws Cymru. Gan ddechrau ym mis Tachwedd, mae WHIASU hefyd yn cyflwyno cwrs cymhwysedd HIA cynhwysfawr i 5 o ymarferwyr.

## Cydweithrediad Parhaus gyda Chynllunio Gwlad a Thref '5 mlynedd yn ddiweddarach – cynllunio ar gyfer iechyd'

Hwylusodd WHIASU a'r Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA) weithdy ar y cyd o'r enw '5 mlynedd yn ddiweddarach – cynllunio ar gyfer iechyd' ar Ddydd Mawrth 17 Gorffennaf yn Chwaraeon Cymru, Caerdydd. Mynychodd tri ar hugain o gynadleddwyr y gweithdy, yn cynrhychioli ystod o sefydliadau yn cynnwys PHW, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr RSPB, Llywodraeth Cymru a sawl awdurdod lleol. Roedd yr agenda ar gyfer y gweithdy yn cynnwys enghreifftiau lleol o arfer da ym maes cynllunio ac iechyd y cyhoedd, a thrafodaethau grŵp ar y cyfleoedd a'r cyfyngiadau presennol y mae cynllunwyr a gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd yn eu hwynebu. Mae'r adborth cychwynnol o'r sesiwn wedi bod yn gadarnhaol iawn.


Roedd y gweithdy hwn yn rhan o ddarn mwy o waith wedi ei arwain gan y TCPA a dyma'r ail dro iddynt gydweithredu â WHIASU i hwyluso integreiddio gwaith cynllunio ac iechyd y cyhoedd. Yn 2016, cynhyrchwyd Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell yng nghanllaw ymarferol Cymru i esbonio sut y gall gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd a gwneuthurwyr polisïau gael mewnbwn i gynlluniau datblygu lleol (CDLlau) ac ymateb yn ystyrlon i geisiadau cynllunio. Mae hefyd yn ystyried sut y gall cynllunwyr mewn awdurdodau lleol integreiddio iechyd a llesiant wrth baratoi ac adolygu CDLlau.

Yn dilyn y gweithdy yng Nghaerdydd, hwylusodd y TCPA bum digwyddiad pellach yn Lloegr i gasglu ystod ehangach o safbwyntiau ynghyd. Bydd y safbwyntiau hyn, ynghyd â'r canfyddiadau o ymchwil pen desg i gyflwr polisi ac ymarfer Cenedlaethol, yn llywio'r llawlyfr terfynol, fydd yn cael ei gyhoeddi mewn digwyddiad lansio yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 28 Ionawr 2019.

## WHO Collaborating Centre for Healthy Urban Environments at the Prifysgol Gorllewin Lloegr

Yn ddiweddar, mae WHIASU wedi dechrau gweithio gyda WHO CC ar gyfer 'Amgylcheddau Trefol Iach' ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr (UWE), Bryste ac mae Liz Green wedi cael ei phenodi fel Cymrawd ar Ymweliad gyda ffocws ar HIA ac Iechyd ym Mhob Polisi a datblygu a hybu hyn fel rhan o'r cwricwlwm addysgu ar gyfer mynyfwyr Cynllunio ac Iechyd y Cyhoedd. Bydd Liz hefyd yn gydran allweddol i un o Weithgareddau gwaith y Canolfannau Cydweithredu mewn perthynas ag integreiddio iechyd a llesiant i sectorau cynllunio a dylunio gwefan newydd.

# Cyhoeddiadau a Chyflwyniadau



## O economïau llinellol i rai cylchol

Cyflwynodd a chyfrannodd Liz Green at gyfarfod arbenigwyr technegol rhanbarth Ewropeaidd WHO 'O economïau llinellol i rai cylchol yn gwella iechyd'– rhoddodd Liz gyflwyniad am y ffordd y mae iechyd a llesiant wedi cael ei integreiddio i strategaeth a pholisi iechyd yng Nghymru gan ddefnyddio HIA.

Cyfrannodd pump ar hugain o randdeiliaid Ewropeaidd i'r cyfarfod ac roeddent yn bennaf yn economegwyr iechyd; gwyddonwyr iechyd yr amgylchedd ac arbenigwyr cemegol. Cafodd briff drafft a baratowyd gan ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan y WHO ei drafod yn ystod y gweithdai. Mae Liz wedi rhoi adborth ar hyn a gofynnwyd iddi gyfrannu ymhellach yn ymwneud â'r HIA a'r adran bolisi a'r templed sgrinio drafft.

## Cynhadledd Ewropeaidd Cymdeithas Iechyd y Cyhoedd (EUPHA), Ljubiana, Tachwedd 28-1 Rhagfyr

Liz Green delivered a skills building workshop in Quality Assuring HIA at the EUPHA conference. She also presented her thinking about how 'HIA can be used to implement the Sustainable Development Goals (SDGs) in practice and decision making'. Both sessions had positive feedback. She is also a member of the HIA section and contributed to the section meeting where there was much interest in the Brexit HIA.

**Diwrnod DPP y Sefydliad Tirwedd, 29 Tachwedd 2018**

Rhoddodd Lee Parry-Williams gyflwyniad yn Niwrnod DPP diweddar y Sefydliad Tirwedd yng Nghaerdydd. Y thema oedd *'Iechyd, llesiant a lle – sut gall ymarferwyr tirwedd gyflawni newid cadarnhaol.* Cynlluniwyd y diwrnod fel diwrnod DPP aml-wedd a gallai'r rhieny oedd yn mynychu ddewis rhwng 16 o sesiynau wedi eu harwain gan arbenigwyr, 2 ymweliad safle a nifer o weithdai rhyngweithiol, yn rhoi cyfle i:

- Ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a dod o hyd i atebion ymarferol i heriau
- Rhwydweithio gyda chymheiriaid ar draws y proffesiynau, rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r arfer gorau.
- Hyd at 7 awr o ddysgu wedi ei strwythuro i helpu i fodloni eu hamcanion DPP

Mae'r Sefydliad wedi cael adborth rhagorol gan gynadleddwyr ac maent yn cynnal arolwg ehangach i gasglu mwy o adborth.

O ganlyniad uniongyrchol i boblogrwydd a llwyddiant y dydd, mae'r sefydliad yn bwriadu mynd â'r digwyddiad hwn ar daith yn y dyfodol.

Ailadroddwyd sesiwn Lee ddwywaith gyda phresenoldeb da yn y ddau sesiwn a chafwyd cryn dipyn o drafodaeth ymysg y cynadleddwyr. Enw'r sesiwn oedd *Cynyddu Cyfraniad Tirweddau i Iechyd a Llesiant.*

Roedd y sesiwn yn gyflwyniad i Asesu Effaith Iechyd ym Mhob Polisi o safbwynt Cymru. Roedd Lee yn awyddus i ddysgu o'r sector Tirwedd sut y gellid defnyddio methodoleg HIA i gryfhau a llywio'r broses gynllunio o'u safbwynt nhw.

#licpd

## A allai HIA fod yn un ffordd o gynyddu cyfraniad tirweddau i iechyd a llesiant?

Roedd y diwrnod yn gyfle i rwydweithio gydag ystod o unigolion a sefydliadau ar draws y sector tirwedd. Yn ogystal, cafwyd lefel dda o ddiddordeb mewn perthynas â cheisiadau hyfforddiant WHIASU. Mae'n sector nad yw WHIASU wedi ymgysylltu'n uniongyrchol ag ef o'r blaen ond bydd yr Uned yn bendant yn ymgysylltu ymhellach â'r Sefydliad ac yn archwilio sut y gallwn gefnogi unigolion a sefydliadau ymhellach.

# Datblygiad Proffesiynol Parhaus

## Cyfleoedd Hyfforddiant

Mae WHIASU yn parhau i gyflwyno ystod o sesiynau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am HIA, o HIA cyflwyniadol i gynhwysfawr a Sicrhau Ansawdd. Nod yr hyfforddiant yw cefnogi a datblygu ymarfer HIA ymhellach yng Nghymru er mwyn sicrhau cynnal HIA ystyrlon ac o ansawdd uchel. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r defnydd o HIA fel rhan allweddol o'i strategaeth i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd ar draws sectorau polisi. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 bellach wedi cyflwyno HIA statudol yng Nghymru ar gyfer pob Corff Cyhoeddus o fewn amgylchiadau wedi eu diffinio. Y bwriad yw y caiff ei weithredu'n llawn yn 2020.

Cysylltwch â WHIASU os hoffech archwilio anghenion hyfforddiant posibl eich sefydliad ymhellach neu os ydych wedi nodi anghenion hyfforddiant penodol mewn perthynas ag Iechyd ym Mhob Polisi neu HIA, yn y cyfamser, gweler isod am fanylion rhai cyfleoedd hyfforddiant i ddod.



### Cyflwyniad hanner diwrnod i HIA: 27/02/

Mae'r sesiwn hanner diwrnod hwn wedi ei anelu at bob gweithiwr proffesiynol iechyd y cyhoedd ar draws sectorau a lleoliadau sydd heb unrhyw wybodaeth flaenorol o HIA neu sy'n dymuno diweddaru eu gwybodaeth. Mae WHIASU yn cynnig dewis ychwanegol yn y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar Asesu'r Effaith ar Les Meddwl (MWIA) ar gyfer unrhyw un sydd eisiau datblygu dealltwriaeth ynghylch sut i integreiddio effaith ar les meddwl i'w gwaith.

Manylion ar y daflen:

PDF
HIA Training 2019.pdf

### E-ddysgu HIA

Mae cwrs e-ddysgu WHIASU, sydd am ddim, yn galluogi unigolion i gael dealltwriaeth sylfaenol o HIA. Mae wedi ei anelu at y rheiny sy'n gweithio ar draws weithlu ehangach iechyd y cyhoedd yn y sector iechyd neu sector nad yw'n ymwneud ag iechyd yng Nghymru.



# 2 Day CIEH HIA Competency Training – Rapid HIA

Mae'n bleser gan WHIASU gyhoeddi dyddiadau newydd ar gyfer ei Hyfforddiant Cymhwysedd Asesu Effaith ar Iechyd – HIA Cyflym (Pen Desg), a gynhelir dros 2 ddiwrnod gan gynnwys tasg. Mae'r cwrs hwn wedi ei anelu at swyddogion fel EHP a Rheolwyr EH, cynllunwyr, swyddogion adfywio a staff eraill fydd angen deall a gallu cyfrannu at, neu mewn rhai achosion, cynnal HIA Cyflym a gwerthfawrogi sut i ddefnyddio'r canfyddiadau yn ymarferol. Ar ôl gwella mewnwelediad i HIA, byddwn yn paratoi swyddogion ar gyfer ymateb i gyflwyno HIA statudol yng Nghymru ar gyfer cyrff cyhoeddus fel yr amlinellir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (amgylchiadau penodol i gael eu pennu yn y rheoliadau i ddod). Yn ogystal, bydd elfennau'r cwrs yn cynorthwyo swyddogion perthnasol i ddehongli cyflwyno'r cysyniad o 'iechyd y boblogaeth' mewn Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (EIA) gan ddilyn Cyfarwyddeb yr UE.

Cynhelir Diwrnod 1 ar 2/4/19 a chynhelir Diwrnod 2 ar 11/6/19, y ddau ddiwrnod yng Nghanolfan Adnoddau'r Cyfryngau, Llandrindod. Y gost ar gyfer Diwrnod 1 yn unig yw £95 ar gyfer aelodau CIEH a £135 ar gyfer y rheiny nad ydynt yn aelodau. Y gost ar gyfer y ddau ddiwrnod yw £200 ar gyfer aelodau CIEH a £260 ar gyfer y rheiny nad ydynt yn aelodau. Mae'r gost yn cynnwys coffi, cinio, nodiadau'r cwrs ac asesiad lle y bo'n briodol. Am fanylion llawn y cwrs yn cynnwys cynnwys a chanlyniadau dysgu, gweler taflen y cwrs i ddilyn.

WHIASU

Chartered Institute of Environmental Health
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

## Health Impact Assessment Competency Training - Rapid (Desk Top) HIAs 2 Days + Assignment

**Dates: Day 1** - Tuesday 2 April 2019 **Day 2** - Tuesday 11 June 2019

**Venue:** Media Resources Centre, Oxford Road, Llandrindod Wells LD1 6AH

| **Cost** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Day 1 only - £95** | (CIEH members) | **£135** (non members) |
| | **Days 1 & 2 - £200** | (CIEH members) | **£260** (non members) |

Cost includes coffee, lunch, course notes and assessment where appropriate.

This course is aimed at officers such as EHP's and EH Managers, planners, regeneration officers and other staff who will need to understand and be capable of contributing to ,or in some cases, conducting a Rapid HIA and appreciate how to use the findings in practice. Having increased insight into HIA will prepare officers to respond to the introduction of statutory HIA in Wales for public bodies as outlined in the Public Heath (Wales) Act 2017 (specific circumstances to be determined in the forthcoming regulations). In addition elements of the course will support relevant officers to interpret the introduction of the concept of 'population health' within Environmental Impact Assessment (EIA) following the EU Directive.

**How does the course work?**

To complete the full competency training delegates need to attend for the 2 days and submit an assignment. Successful delegates will receive a Certificate of Competency for Rapid HIA. Delegates can register for Day 1 only and following attendance would receive a Certificate of Attendance only. Day 1 & 2 must be taken on the same course - delegates may not switch between cohorts or venues.

**Day 1** of the course is designed to provide insight into the process and principles that underpin Health Impact Assessment (HIA). The learning from Day 1 is then strengthened through the undertaking of a Rapid Desk Top HIA assignment.
The learning outcomes include:

1. Understands the purpose of HIA
2. Know the policy drivers that support the use of HIA
3. Know the benefits and outcomes that HIA can achieve
4. Understand the HIA process and methods
5. Know how HIA can be applied in a range of contexts
6. Understands the ethical principles and values that inform HIA
7. Know the resource, skills and knowledge requirements for completing a HIA - and where your skill set is relevant
8. Identify opportunities for using HIA in practice
9. Applying the learning through undertaking a Rapid HIA.

**Day 2** provides an opportunity for attendees to demonstrate their learning and reflect on their experience of applying HIA within the context of their work, it involves:

- Reviewing submitted Rapid HIAs, focusing on issues identified,
- Gaining experience from the HIAs carried out by other participants,
- Allowing for discussion of the system in greater detail.

**Time line-**
The course has been designed to allow a draft assignment to be submitted and assessed in order to provide additional guidance to strengthen both your learning and final assignment.

| Time line | Outline |
|---|---|
| Day 1<br>2nd April | Full day attendance by all delegates |
| 4 weeks<br>30th April | Pre-submission of assignment (optional) |
| 6 weeks | Feedback and comments from assessors returned to delegates (participants will have 2 weeks to make revisions) |
| 8 weeks<br>28th May | Final submission of assignment following revisions |
| 10 weeks<br>11th June | Day 2 review and reflections |
| 11-12weeks | Final feedback and results sent to delegates |

**The Assignment**
Delegates will be required to undertake a rapid desk top Health Impact Assessment and submit a short report about it.

**It can be on any subject or topic area relevant, or directly related to, your work practice. It can be retrospective, concurrent or prospective** (further insight is provided on the pre-course instructions)

You are expected to use the methodology, format and tools as outlined in WHIASU's 'Health Impact Assessment: A Practical Guide' (WHIASU, 2012)
https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/files/1415/0710/5107/HIA_Tool_Kit_V2_WEB.pdf

The maximum word count for the assignment is 5,000.This includes the main body of the text including headings and titles. It excludes any title page or contents page, tables, appendices and references.

**Why HIA?**
This is a good time to be developing your skills and knowledge in HIA with the passage of the Public Health Act (Wales) 2017 which makes HIA a statutory assessment. In addition there is the new EU directive for EIA which has expanded the focus on health and wellbeing to consider population health.

Health Impact Assessment (HIA) is a process which supports organisations to assess the potential consequences of their decisions on people's health and well-being. It is increasingly recognised and understood that all policy areas have an impact on individuals and communities health and wellbeing outcomes. The Welsh Government has focused on a **Health in All Policies (HiAP)** approach and recognises HIA as a key tool to be used to raise awareness and increase understanding across sectors on how policies, programmes and services impact on health and wellbeing. In Wales, HIA assesses the implications for health and wellbeing through the broad lens of the **wider determinants of health** and contributes to a reduction in **health inequalities and inequities**. HIA is advocated for and implemented at both strategic and operational levels across land use, planning, housing, waste, transport, regeneration and health sectors.

HIA provides a systematic yet flexible and practical framework that can be used to consider the wider effects of local and national policies or initiatives and how they, in turn, may affect people's health and wellbeing. An HIA gathers and assesses a range of evidence and this is then used to build in measures to maximise opportunities for health and wellbeing, to minimise any risks and inform the decision making process. It also provides a way of addressing the inequalities in health that continue to persist in Wales. It does this through collaboration and co-production which is built into the HIA process.

To reserve places:

1. **Return this completed form to CIEH at wales@cieh.org**
2. **Send it to Gail Gerrard, CIEH, Lakeside Court, Llantarnam Parkway, Cwmbran, NP44 3GA g.gerrard@cieh.org**

Please reserve me places on DAY 1 of the Rapid HIA Training @ £95/£135 per delegate at MRC, Oxford Road, Llandrindod Wells LD1 6AH on Tuesday 2nd April 2019 as follows:

Day 1 ONLY

| Name | Email Address | CIEH Member? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Day 1 & 2

| Name | Email Address | CIEH Member? |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Please note : cancellations must be made in writing at least 5 working days before the course. After that time monies will not be refunded but delegate substitution will be allowed. If reserved places are not cancelled as above full payment will be required.

The same delegate must attend Day 1 and day 2 of the 2 day course.
Development of this course has been supported by the Wales Heads of Environmental Health Group.

# Resources

## Adnoddau

Fel rhan o rôl yr Uned i gefnogi defnydd effeithiol o HIA yng Nghymru, rydym yn parhau i ddatblygu ystod o adnoddau fel offer ac astudiaethau achos. Bwriad y rhain yw rhoi cymorth ymarferol i ymarfer HIA ynghyd â mewnwelediad i'r cyd-destun o gymhwyso methodoleg HIA i gynorthwyo gwneud penderfyniadau a dealltwriaeth o HIA. Mewn llawer o achosion, rydym yn cydweithredu gydag eraill i greu'r adnoddau hyn pan fydd bwlch neu angen penodol wedi cael ei nodi. Mae'r Uned yn croesawu unrhyw gyfle i drafod syniadau ar gyfer datblygu adnoddau fydd yn cefnogi ac yn datblygu dealltwriaeth ac ymarfer HIA ymhellach.

Mae'r Uned ar hyn o bryd wrthi'n ailysgrifennu *'Health Impact Assessment: A Practical Guide'* (Chadderton, Elliott, Green, Lester, a Williams, 2012) er mwyn gwneud y cyngor a'r arweiniad i gyd-fynd â'r datblygiadau polisi a statudol diweddaraf. Mae mwy o ganllawiau ac offer hanfodol ar gael ar wefan WHIASU.

## Dolenni Defnyddiol

Mae angen dealltwriaeth eang ar draws ystod o sectorau a lleoliadau ar ymagwedd 'Iechyd ym Mhob Polisi', felly mae cael ystod dda o ffynonellau gwybodaeth destunol o gymorth mawr. Wedi eu rhestru isod ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a all eisoes fod yn gyfarwydd i chi ac eraill y gallech eu harchwilio.

- Gwefan WHIASU
- Gwefan ac efwletinau Rhwydwaith Iechyd Cymru
- Arsyllfa PHW
- Asesu Effaith ar Iechyd CC WHO
- YN GRYNO
  - Cynhyrchir y wefan hon gan Senedd Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n rhoi gwybodaeth ddi-duedd, awdurdodol ar y testunau diweddaraf sy'n cael eu hystyried yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir tanysgrifio i gael hysbysiadau wythnosol neu fisol ar ebost.
- Diweddariad Ymwybyddiaeth Bresennol Pobl Iach Mannau Iach
  - Caiff hwn ei gynhyrchu gan Wasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd Public Health England.
    Diben y diweddariad hwn yw rhoi trosolwg i chi o'r newyddion, polisïau, tystiolaeth ac adnoddau diweddaraf sy'n berthnasol i'r agenda iechyd a lle. Gellir cysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd PHE yn libraries@phe.gov.uk.
- Grŵp Datblygu Trefol Iach Gorllewin Canolbarth Lloegr
  - Adnodd defnyddiol iawn sydd yn rhoi diweddariadau wythnosol ar ystod o

# Cysylltwch â Ni

Liz.Green@wales.nhs.uk

**Prif Swyddog Datblygu Asesu Effaith ar Iechyd**

Lleolir yn Wrecsam Ffôn: 01978 313 664

Lee.ParryWilliams@wales.nhs.uk

**Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Asesu Effaith)**

Lleolir yn yr Wyddgrug Ffôn: 01352 803482

Nerys.S.Edmonds@wales.nhs.uk

**Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Asesu Effaith)**

Lleolir yn Ne Cymru

Angharad.H.Wooldridge@wales.nhs.uk

**Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd (Polisi ac Asesu Effaith)**

Lleolir yn Ne Cymru

Edwin.Huckle@phe.gov.uk

**Prif Swyddog Datblygu Asesu Effaith ar Iechyd**

Secondiad yng Nghaerdydd

Vicky.Smith2@wales.nhs.uk

**Swyddog Cymorth Prosiect**

Secondiad yng Nghaerdydd

Laura.Morgan47@wales.nhs.uk

**Ymchwilydd Iechyd y Cyhoedd**

Lleolir yng Nghaerdydd

Am fwy o wybodaeth ac arweiniad ar HIA, ewch i'n gwefan.